

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr**  
**21.09.20**  
**Trwy Teams**

**Nodiadau'r Cyfarfod**

<b>Aelodau Presennol</b>	<b>Sefydliad</b>
Alyson Francis	LIC
Mike Evans	CNC
Dorian Lloyd	Heddlu De Cymru
Paul Harris	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Y Cyngorydd Rod Shaw	Panel Craffu BGC
Heidi Bennett	Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)
Helen Hammond	Cymorth Partneriaeth
Judith Jones	Cymorth Partneriaeth
Katy Chamberlain	Busnes Mewn Ffocws
Christian Hadfield	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Marcus Longley	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Y Cyngorydd Richard Young	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Martin Morgans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Mark Brace	CHTh
Eirian Evans	NPS Cymru
Richard Hughes	Awen
Mark Shephard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
<b>Ymddiheuriadau</b>	
Simon Pirotte	Coleg Penybont
Huw Jakeway	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Y Cyngorydd Huw David	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Joanne Oak	V2C

<b>Rhif</b>	<b>Sylw</b>	<b>Cam Gweithredu</b>
<b>1</b>	<b>Croeso a Chyflwyniadau ac ymddiheuriadau</b>	
1.1	Croesawodd MB aelodau'r BGC i'r cyfarfod rhithwir.	
<b>2</b>	<b>Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2020</b>	
2.1	Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir. Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau neu ar agenda'r cyfarfod hwn.	
<b>3</b>	<b>Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl ac Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd</b>	
3.1	Dosbarthwyd cylch gorchwyl wedi'i ddiweddarau gyda'r papurau. Gofynnir i unrhyw newidiadau gael eu hanfon at dîm cymorth y BGC i'w trafod a'u cytuno yn y cyfarfod nesaf <b>Cam Gweithredu:</b> aelodau i roi adborth ar unrhyw ddiwygiadau i dîm cymorth y BGC.	Pawb
3.2	Disgwylir i gadeiryddiaeth y BGC gael ei hadolygu bob 12 mis. Mae MB wedi cynnig sefyll eto. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill. Roedd llawer o aelodau wedi ymateb i ddweud eu bod yn hapus i	MB

	gymeradwyo MB i barhau fel cadeirydd ac ni wnaed unrhyw wrthwynebiadau. <b>Cam Gweithredu:</b> MB i aros fel cadeirydd.																																																																																																																																																																																																				
<b>4</b>	<b>Adroddiad gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</b> <a href="https://futuregenerations2020.wales/welsh?category=vision">https://futuregenerations2020.wales/welsh?category=vision</a>																																																																																																																																																																																																				
4.1	Rhannwyd yr adroddiad gan y Comisiynydd. Cytunwyd y gallai'r ddogfen hon lywio gwaith y BGC yn y dyfodol																																																																																																																																																																																																				
<b>5</b>	<b>Amserlenni ar gyfer yr Aseiad Lles a'r Cynllun Lles nesaf</b>																																																																																																																																																																																																				
5.1	Disgwylir i'r aseidiadau lles nesaf gael eu cyhoeddi ym mis Mai 2022 a disgwylir yr aseiad poblogaeth ar gyfer yr RPB ar yr un pryd. Cytunwyd i gael dull cyfunol o asesu ar gyfer y tri bwrdd. Bydd yr aseiad o'r effaith ar y gymuned yn ychwanegu at yr aseiad lles gwreiddiol a bydd yr holl bartneriaid yn bwydo i mewn i'r broses honno i ddarparu darlun gyfredol a mwy o fanylion am flaenoriaethau lleol gan y tri bwrdd. Mae amserlen ar gyfer yr aseiad lles isod																																																																																																																																																																																																				
	<table border="1"> <thead> <tr> <th rowspan="2">Key Actions</th> <th colspan="10">2021</th> <th colspan="5">2022</th> </tr> <tr> <th>Apr</th> <th>May</th> <th>Jun</th> <th>Jul</th> <th>Aug</th> <th>Sep</th> <th>Oct</th> <th>Nov</th> <th>Dec</th> <th>Jan</th> <th>Feb</th> <th>Mar</th> <th>Apr</th> <th>May</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Develop approach to Wellbeing assessment</td> <td>•</td> <td>•</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Quantitative and qualitative data collection</td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Citizen engagement/involvement activities</td> <td></td> <td></td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Workshops/focus group work/partner input</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td>•</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Complete draft qualitative and quantitative analysis</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td>•</td> <td>•</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>PSB meeting to approve draft WBA</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td>•</td> <td>•</td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Welsh Translation, Easy Read version, Young People version etc</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td>•</td> <td>•</td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>WBA to Commissioner for Review</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td>•</td> <td>•</td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Statutory Consultation</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td>•</td> <td>•</td> <td></td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Response to consultation</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td>•</td> <td>•</td> <td></td> </tr> <tr> <td>Publish WBA</td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td></td> <td>•</td> </tr> </tbody> </table>	Key Actions	2021										2022					Apr	May	Jun	Jul	Aug	Sep	Oct	Nov	Dec	Jan	Feb	Mar	Apr	May	Develop approach to Wellbeing assessment	•	•													Quantitative and qualitative data collection	•	•	•	•	•	•	•	•	•						Citizen engagement/involvement activities			•	•	•	•	•	•	•						Workshops/focus group work/partner input						•	•	•	•						Complete draft qualitative and quantitative analysis								•	•						PSB meeting to approve draft WBA										•	•				Welsh Translation, Easy Read version, Young People version etc										•	•				WBA to Commissioner for Review										•	•				Statutory Consultation										•	•				Response to consultation												•	•		Publish WBA														•	
Key Actions	2021										2022																																																																																																																																																																																										
	Apr	May	Jun	Jul	Aug	Sep	Oct	Nov	Dec	Jan	Feb	Mar	Apr	May																																																																																																																																																																																							
Develop approach to Wellbeing assessment	•	•																																																																																																																																																																																																			
Quantitative and qualitative data collection	•	•	•	•	•	•	•	•	•																																																																																																																																																																																												
Citizen engagement/involvement activities			•	•	•	•	•	•	•																																																																																																																																																																																												
Workshops/focus group work/partner input						•	•	•	•																																																																																																																																																																																												
Complete draft qualitative and quantitative analysis								•	•																																																																																																																																																																																												
PSB meeting to approve draft WBA										•	•																																																																																																																																																																																										
Welsh Translation, Easy Read version, Young People version etc										•	•																																																																																																																																																																																										
WBA to Commissioner for Review										•	•																																																																																																																																																																																										
Statutory Consultation										•	•																																																																																																																																																																																										
Response to consultation												•	•																																																																																																																																																																																								
Publish WBA														•																																																																																																																																																																																							
<b>6.</b>	<b>Adborth gan y Bwrdd Asedau</b>																																																																																																																																																																																																				
6.1	<p>Paratowyd canlyniadau'r arolwg manau gwyrdd ar gyfer yr is-fwrdd Asedau diwethaf. Gofynnodd yr arolwg a oedd manau agored a gwyrdd yn cael eu defnyddio'n wahanol yn ystod y cyfyngiadau symud a beth allwn ni ei ddysgu o hyn i wella lles yn y dyfodol.</p> <p>Ymatebodd 586 o ymatebwyr. Canfu'r arolwg fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ 97% yn gwerthfawrogi manau gwyrdd yn fwy ar ôl y cyfnod clo</li> <li>➤ 81% yn fwy ymwybodol o fywyd gwyllt</li> <li>➤ 93% yn teimlo bod manau gwyrdd wedi helpu eu hiechyd personol a theuluol a'u hiechyd meddwl yn ystod y cyfnod clo</li> <li>➤ 56% wedi defnyddio manau gwyrdd i wneud ymarfer corff o'r newydd</li> <li>➤ Bydd 95% yn defnyddio mwy o fannau gwyrdd yn y dyfodol.</li> <li>➤ Darparodd 244 o bobl gyfeiriad e-bost er mwyn gwirfoddoli ar gyfer gweithgareddau cadwraeth fel codi sbwriel a phlannu coed.</li> <li>➤ Dywedodd 63 o ymatebwyr fod manau gwyrdd yn bwysig i'w busnes</li> </ul> <p>Bydd y canlyniadau'n bwydo i mewn i gamau is-fwrdd Asedau'r BGC yn y cynllun lles ac yn ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd manau agored a gwyrdd mewn polisi/cynlluniau partneriaid, yr aseiad o'r effaith ar y gymuned ac yn cefnogi adferiad gwyrdd.</p> <p>Teimlai'r Is-fwrdd Asedau fod y cyfyngiadau symud wedi amlygu'r heriau y mae llawer yn eu hwynebu gydag iechyd meddwl ac mae angen dod â'r ddau faes hyn at ei gilydd drwy wella manau gwyrdd i'w cadw fel adnodd i gefnogi lles mewn cymunedau. Bydd y rhwydwaith gwyrdd yn gweithio ar raglen o gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer yr adeg y gall y</p>																																																																																																																																																																																																				

	<p>gwaith hwnnw ddechrau eto ac mae ffeithlun o ganlyniadau yn cael ei baratoi i roi adborth i ddinasyddion.</p> <p>Efallai y byddai'n fanteisiol edrych ar ganlyniadau drwy lens economaidd cymdeithasol, gan ystyried yr effaith ar wahanol wardiau a chanolbwyntio ar y rhai lle gellir cael y budd mwyaf. Dylid gofyn i'r gwirfoddolwyr hynny o'r arolwg gofrestru gyda phorth gwirfoddoli BAVO fel y gellir eu cefnogi a hefyd bwydo i mewn i weithgareddau eraill fel y prosiect trawsnewid – cymunedau gwydn. <b>Cam Gweithredu:</b> gofyn i wirfoddolwyr gofrestru ar borth gwirfoddoli BAVO.</p>	HH
6.2	<p>Drwy'r Is-fwrdd Asedau, trefnwyd gweithdy dan arweiniad tîm y CDLI yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr i gynnal trosolwg o rwydweithiau seilwaith a chapasiti presennol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a thrafod y prosiectau seilwaith unigol a'r cyfleoedd i gydweithio yn seiliedig ar y themâu isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trafnidiaeth (cerdded a beicio, ffyrdd a rheilffyrdd),</li> <li>• Addysg (meithrin, cynradd, uwchradd),</li> <li>• Iechyd (ysbytai, canolfannau iechyd, deintyddion, gofalu am yr henoed),</li> <li>• Rheoli Amgylcheddol (seilwaith gwyrdd, asedau bioamrywiaeth, perygl llifogydd a rheoli dŵr wyneb),</li> <li>• Cyfleustodau (Dŵr a dŵr gwastraff, nwy, trydan a thelathrebu).</li> </ul> <p>Gwahoddir aelodau'r BGC i gymryd rhan a/neu enwebu rhywun o'u sefydliad. <b>Cam Gweithredu:</b> rhannu cais cyfarfod i aelodau'r BGC ar gyfer y gweithdy.</p>	HH
<b>7</b>	<b>Diweddariad gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf</b>	
7.1	Nid oes diweddariad ar gael ar hyn o bryd	
<b>8</b>	<b>Asesiad Effaith ar y Gymuned Covid 19</b>	
8.1	<p>Rhoddodd Sam Sullivan o Data Cymru drosolwg o'r drafft presennol o'r asesiad o'r effaith ar y gymuned yn dangos y fformat SWAY a fydd yn rhoi mwy o fanylion gan ddefnyddio dolenni wedi'u mewnlannu i ddata a all fod yn rhyngweithiol. Mae llawer mwy o wybodaeth yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd i'w chynnwys yn yr Asesiad a fydd ar gael i'r BGC ymhen ychydig wythnosau. Teimlai'r aelodau y bydd yr adroddiad yn adnodd defnyddiol i bartneriaid pan fydd wedi'i gwblhau. Dylid cyhoeddi crynodeb gyda nifer fach o negeseuon allweddol, yn enwedig lle nad yw'r ardal yn cyd-fynd â gweddill Cymru, a bydd y BGC yn datblygu cynllun gweithredu ataliol sy'n adeiladu ar hyn. Cadarnhaodd yr Aelodau fod y data a gasglwyd hyd at fis Gorffennaf a mis Awst, sy'n adlewyrchu'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud a fydd yn llywio gweithgarwch wrth symud ymlaen er y bydd rhywfaint o'r data wedi dyddio'n eithaf cyflym. <b>Cam Gweithredu:</b> Gofynnir i'r Aelodau roi adborth ar y drafft a ddarparwyd a'r cyflwyniad i dîm cymorth y BGC.</p>	Pawb
8.2	<p>Bydd yn bwysig sicrhau bod yr holl wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd. Mae partneriaid wedi darparu gwybodaeth yn benodol i'w defnyddio yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn y rhan fwyaf o achosion ac nid oedd gan aelodau'r BGC a oedd yn bresennol unrhyw wrthwynebiadau i rannu'r data hwn. Efallai y bydd angen cynnwys rhywfaint o ddata a gasglwyd at ddibenion eraill e.e. data grant busnes neu ddata troseddau ar lefel ddaearyddol uwch er mwyn sicrhau na ellir adnabod unrhyw</p>	Grŵp Gorchw

	beth. Bydd Data Cymru yn gwneud gwiriad datgelu i sicrhau cydymffurfiaeth GDPR. <b>Cam Gweithredu:</b> Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn cyfarfod yn fuan ac yn gweithio gyda Data Cymru ar ganiatadau.	yl a Gorffen
<b>9</b>	<b>Cyllid CNC</b>	
9.1	Bydd CNC yn darparu £25k y flwyddyn ar gyfer y flwyddyn hon a'r tair blynedd ddilynol i gefnogi BGCau i gyflawni eu cynlluniau lles gan ganolbwyntio'n benodol ar adferiad gwyrdd a'r argyfyngau hinsawdd a natur megis gwaith i'r ymateb i'r arolwg manau agored a gwyrdd i gefnogi gwirfoddoli. <b>Cam Gweithredu:</b> Bydd MB yn cyfarfod â ME i drafod a bydd yr is-fwrdd Asedau yn llunio eu cynigion. <b>Cam Gweithredu:</b> Tîm cymorth y BGC a'r Is-fwrdd Asedau i baratoi'r cyflwyniad i'r gronfa	MB/ ME  HH/ Is-fwrdd Asedau.
<b>10</b>	<b>Prosiect Adeiladu Cyfoeth Cymunedol Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr</b>	
10.1	Mae LIC wedi ymgysylltu â CLES i gefnogi BGCau i adeiladu cyfoeth cymunedol drwy ddefnyddio prosesau caffael i wella dylanwad o fewn cadwyni cyflenwi. Mae BGC Pen-y-bont ar Ogwr wedi dweud eu bod am fod yn rhan o'r prosiect hwn a bwriedir cynnal gweithdy ar y cyd â BGC Cwm Taf i nodi sector, thema neu ddull caffael blaengar allweddol y mae gan un sefydliad angori, neu grŵp o sefydliadau angori ddi-ddordeb yn ei ddilyn. <b>Cam Gweithredu:</b> Gofynnir i aelodau'r BGC nodi eu harweinwyr caffael i gymryd rhan yn y gweithdy.	Pawb
10.2	Mae Busnes mewn Ffocws yn gweithio gyda sefydliadau i dorri tendrau'n llai i'w gwneud yn hygyrch i fusnesau lleol a hefyd i gefnogi busnesau bach a chanolig i allu tendro. <b>Cam Gweithredu:</b> Bydd Busnes mewn Ffocws yn rhan o'r gweithdy	KC
<b>11</b>	<b>Unrhyw fater arall</b>	
11.1	Mae JCP wedi gweld effeithiau sylweddol, a fydd yn bwydo i mewn i'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, gyda disgwyliad o weld pwysau cynyddol o ddiwedd y cyfnod ffyrlo a chau gwaith Ford Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cynllun Kickstart ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed yn annog cyflogwyr i gynnig contract blwyddyn gyda chymorth ariannol gan y rhaglen. Anogir aelodau'r BGC i gymryd rhan yn y cynllun. Mae Coleg Penybont a CBS Pen-y-bont ar Ogwr eisoes wedi cofrestru. Mae diweithdra ym Mhen-y-bont ar Ogwr ymysg pobl ifanc wedi codi i 1192 sy'n peri risg hirdymor os nad yw'r bobl ifanc hyn yn dechrau gweithio. <b>Cam Gweithredu:</b> PH i anfon manylion ar gyfer aelodau'r BGC ynghylch Kickstart a darparu data ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.	PH
<b>12</b>	<b>Cyfarfod nesaf</b>	
	Y cyfarfod nesaf yn ôl yr amserlen yw 14 Rhagfyr 2020.	

<b>Log Gweithredu</b>		
<b>Eitem</b>	<b>Cam gweithredu</b>	<b>Gan bwy</b>
3.1	<b>Cam Gweithredu:</b> aelodau i roi adborth ar unrhyw ddiwygiadau i'r cylch gorchwyl i dîm cymorth y BGC.	<b>Pawb</b>
3.2	<b>Cam Gweithredu:</b> MB i aros fel cadeirydd.	<b>MB</b>

6.1	<b>Cam Gweithredu:</b> gofyn i wirfoddolwyr gofrestru ar borth gwirfoddoli BAVO	<b>HH</b>
6.2	<b>Cam Gweithredu:</b> rhannu cais cyfarfod i aelodau'r BGC ar gyfer y gweithdy CDLI.	<b>HH</b>
8.1	<b>Cam Gweithredu:</b> Gofynnir i'r Aelodau roi adborth ar y drafft o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a ddarparwyd a'r cyflwyniad i dîm cymorth y BGC.	<b>Pawb</b>
8.2	<b>Cam Gweithredu:</b> Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn cyfarfod yn fuan ac yn gweithio gyda Data Cymru ar ganiatadau.	<b>Grŵp Gorchwyl a Gorffen</b>
9.1	<b>Cam Gweithredu:</b> Bydd MB yn cwrdd â ME.	<b>MB/ ME</b>
9.1	<b>Cam Gweithredu:</b> Tîm cymorth y BGC a'r Is-fwrdd Asedau i baratoi'r cyflwyniad i'r gronfa	<b>HH/ Is-fwrdd Asedau.</b>
10.1	<b>Cam Gweithredu:</b> Gofynnir i aelodau'r BGC nodi eu harweinwyr caffael i gymryd rhan yn y gweithdy.	<b>Pawb/JJ</b>
10.2	<b>Cam Gweithredu:</b> Bydd Busnes mewn Ffocws yn rhan o'r gweithdy	<b>KC</b>
11.1	<b>Cam Gweithredu:</b> PH i anfon manylion ar gyfer aelodau'r BGC ynghylch Kickstart a darparu data ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.	<b>PH</b>